

ADRODDIAD BLYNYDDOL - 2015/16

Y Cynghorydd: Stephen W. Churchman

Grŵp: Democratiaid Rhyddfrydol

Ward: DOLBENMAEN

Bwriad yr adroddiad blynyddol:

Pwrpas yr Adroddiad Blynyddol yw cynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn.

Rôl a chyfrifoldebau:

Aelod mainc gefn ac Arweinydd Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol

Cynhaliwyd y gweithgareddau canlynol yn yr etholaeth:

Dosbarthais bedwar Cylchlythyr Ward gyda'r teitl "Ffocws" ledled y ward yn egluro rhai o'm gweithgareddau a'm gwaith achos. Rwy'n ysgrifennu, argraffu a dosbarthu'r rhain yn bersonol (ar wahân i lond dynaid sy'n cael eu dosbarthu trwy'r Post Brenhinol). Mae pob tŷ yn derbyn dau gopi o bob cyhoeddiad, un yn Gymraeg ac un yn Saesneg. Caiff y pamffledi hyn eu cyfieithu'n broffesiynol a thelir amdanynt gennyf i heb gost i bobl Gwynedd o gwbl. Rwyf, yn ogystal, wedi cynhyrchu a dosbarthu nifer o bamffledi a llythyrau lleol yn ymwneud â materion lleol a phenodol iawn.

Er mwyn cynrychioli Dolbenmaen, fy nod yw bod yn weithgar a mynd ati i ganfod gwaith achos y medraf ymdrin ag o. Pan wyf yn dosbarthu cylchlythyrau rwy'n cadw golwg ar faterion all ddod i'r amlwg ac yn gofyn i drigolion am eu barn a'u pryderon. Rwy'n adrodd ar rai o'r materion hyn yn fy nghylchlythyrau ward. Yn aml, mae gwaith achos yn gofyn am gyfarfodydd ar safle gyda staff y cyngor er mwyn deall a thrafod datrysiadau.

Yn fy nghylchlythyr rwyf wedi sylwebu ar nifer o faterion all fod o ddiddordeb i'm hetholaeth megis cael gwared â TAW ar Dwristiaeth, trafndiaeth gyhoeddus, Heddlu a Throsedd, y gwasanaeth Swyddfa Bost yng Ngarndolbenmaen, trafndiaeth sy'n gor-yrru drwy Bentrefelin, ailgylchu a'r gwasanaeth newydd i gasglu clytiau.

Cynhaliwyd y mentrau a'r gweithgareddau canlynol:

Yn ystod y misoedd diwethaf rwyf wedi ymddeol o'r Pwyllgor Neuadd Bentref ar ôl cyfnod o bron i bymtheng mlynedd, gan fod yn Gadeirydd am y pedair blynedd diwethaf.

Bu i mi fynychu'r Pwyllgorau isod:

PWYLLGOR	Nifer o gyfarfodydd *	Yn bresennol	Ymddiheuriad	Absennol
Y Cyngor	6	3	3	0
Y Pwyllgor Pensiynau	5	4	1	0
Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion	1	0	1	0
Pwyllgor Cynllunio	2	2	0	0
Pwyllgor Craffu Cymunedau	4	4	0	0
Pwyllgor Ardal Dwyfor	4	3	1	0
Cronfa Bensiwn Blynyddol	1	1	0	0

Nifer o gyfarfodydd pwyllgor yn ystod 2015/16

Canran Presenoldeb: 74%

Nid oeddwn yn medru mynychu rhai pwyllgorau am y rhesymau canlynol:

Digwydd yr un pryd â gweithgareddau eraill, er enghraifft, cyfarfodydd Cartrefi Cymunedol Gwynedd a gwella ar ôl llawdriniaeth feddygol fach.

Bu i mi gymryd rhan yn y cyfarfodydd, seminarau, ymchwiliadau a gweithdai ychwanegol canlynol:

Gweithdy Arbedion

Seminar Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (a gynhaliwyd yng Nghasnewydd)

Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd ar y cyrff neu yn y cyfarfodydd allanol isod:

Cymdeithas y Deillion, Cymru

RNIB Cymru.

Seminar CPLIL (Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol)

Llywodraethwr Ysgol, Ysgol Garndolbenmaen (Is-gadeirydd), rwy'n cadeirio'r Is-bwyllgor Cyllid.

Rwyf hefyd yn un o bedwar o Gynghorwyr Gwynedd sydd ar Fwrdd Cartrefi Cymunedol Gwynedd Cyf. (CCG). Mae amllder cyfarfodydd yn amrywio ond mae galw mawr arnom ar brydiau. Y llynedd, bu i CCG ailstrwythuro ei Fwrdd ac mae nawr yn rhedeg nifer o Bwyllgorau. Rwy'n aelod o'r Pwyllgor Adnoddau ac yn Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio, gan ddefnyddio fy sgiliau fel Archwilydd ers pan oeddwn yn gweithio mewn diwydiant.

Nid wyf yn aelod o Gyngor Cymuned Dolbenmaen, ond rwy'n mynychu rhai o'u cyfarfodydd fel gwestai gwadd.

Bu i mi fynychu'r sesiynau hyfforddiant Dysgu a Datblygu isod:

	Dyddiad
Dull sy'n seiliedig ar Hawliau Anabledd	31-Mawrth-2016
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru 2014)	21-Ionawr-2016
Cydraddoldeb - Eich cyfrifoldeb	03-Rhagfyr-2015
Craffu Effeithiol	25-Tachwedd-2015
Arwain yn Ddiogel	15-Hydref-2015
Sgiliau Cadeirio Effeithiol	23-Medi-2015
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru 2014)	7-Gorffennaf-2015

Cyfanswm nifer yr oriau: